# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1859(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar ran y Prif Weinidog, Rhodri Morgan, ar 3 Hydref 2006

**At Jocelyn Davies:**

Yng nghwestiynau'r Prif Weinidog ar 3 Hydref, gofynnoch a ellid rhoi ystyriaeth daer i sicrhau fod gan bob cartref synhwyrydd carbon monocsid. Gofynnodd y Prif Weinidog i fi i ymateb i chi.

Nid yw iechyd a diogelwch wedi ei ddatganoli yn gyffredinol ac nid oes rheoliadau yn mynnu gosod synwyryddion carbon monocsid mewn cartrefi, fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i bryderi am beryglon iechyd carbon monocsid.

Cynigia synwyryddion carbon monocsid ddull defnyddiol o warchod, fodd bynnag, nid ydynt yn gallu cymryd lle offerynnau a simneiau wedi eu cynnal yn iawn.

Awgrymir gan ymchwil newydd mewn adolygiad o ddiogelwch nwy mewn cartrefi gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod offerynnau nwy diffygiol yn dal yn cael eu defnyddio mewn nifer o gartrefi a bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o beryglon cael eich gwenwyno gan garbon monocsid yn ddigon isel i beri gofid.

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r awdurdod gweithredol yn yr adolygiad hwnnw er mwyn cynhyrchu cynigion fydd yn sefydlu cyfundrefn ddiogelwch nwy cyfoes ac effeithiol.